

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal
Cymdeithasol

Cynllun Strategol 2023-26

Ebrill 2023



Cynllun Strategol 2023-2026 yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (1B) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.



© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn info@professionalstandards.org.uk

ISBN 978-1-5286-4093-0

E02886325 04/23

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 40%

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

m yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd drwy godi safonau rheoleiddio a chofrestru gwirfoddol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, yn atebol i Senedd y DU.

Rydym yn goruchwylio gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn y DU a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio ac yn craffu ar eu penderfyniadau ynghylch a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n dal cofrestrau gwirfoddol ar gyfer pobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio ac yn achredu'r sefydliadau hynny sy'n bodloni ein safonau.

Er mwyn annog gwelliant rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cynnal ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd gan gynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y DU ac yn rhyngwladol ac yn rhoi cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion sy'n ymwneud â phobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal. Rydym hefyd yn ymgymryd â rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hybu diogelwch ym mudoledd y gweithlu iechyd a gofal.

Ein gwerthoedd sefydliadol yw: uniondeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd wrth wraidd ein gwaith. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'r dull a gymerwn ar gael yn www.professionalstandards.org.uk.



Cynllun Strategol 2023-26

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae Cynllun Strategol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol 2023-26 yn nodi'r dull o gyflawni ein dyletswyddau statudol yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae hefyd yn amlinellu ein hymrwymiad i welliant parhaus yn ein prosesau a darparu gwerth am arian yng ngwaith yr Awdurdod. Yn y cynllun hwn rydym yn cyfeirio'n aml at 'reoleiddio a chofrestru' i gydnabod bod ein swyddogaethau'n cwmpasu gwaith y rheolyddion proffesiynol a'r cofrestrau achrededig.

Yn ogystal â'n dyletswyddau craidd, mae'r cynllun hwn yn disgrifio ein gwaith i wneud rheoleiddio proffesiynol yn well ac yn decach. O ran gwell mae hyn yn golygu sicrhau bod ein gwaith yn ychwanegu gwerth at reolyddion, cofrestrau achrededig ac unigolion cofrestredig, gan eu helpu i wneud gwaith gwell fyth er budd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hefyd yn golygu hyrwyddo diwygio rheoleiddio proffesiynol, a chefnogi gweithrediad y diwygiad hwnnw, er mwyn i reolyddion a chofrestrau achrededig allu gwneud mwy o gyfraniad at ofal mwy diogel i bawb. Mae gwneud y system yn decach yn ymwneud â'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Mae hyn yn golygu hyrwyddo a monitro EDI yn ein gwaith ac yn y rhai rydym yn eu goruchwylio, fel bod materion annhegwch a niwed mewn rheoleiddio a chofrestru yn cael eu datrys a bod gwelliannau i'w gweld mewn canlyniadau i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth.

Mae'r cynllun strategol hwn hefyd yn cynnwys ein gwaith i gyflawni a chefnogi'r argymhellion o'n hadroddiad *Gofal mwy diogel i bawb*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Byddwn yn gweithio gyda rheolyddion, cofrestrau achrededig, rhanddeiliaid mewn iechyd a gofal cymdeithasol, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a llywodraethau i weithredu'r argymhellion hyn ymlaen i wella diogelwch ac ansawdd gofal i bawb.

Rydym yn cydnabod y gallai blaenoriaethau newid yn ystod oes y cynllun hwn ac efallai y bydd angen i ni addasu i'r heriau pellach sydd o'n blaenau. Gwyddom, er enghraifft, mai llywodraethau'r DU sy'n gyfrifol am ddiwygio rheoleiddiol ac ni allwn reoli'r newidiadau a roddwyd ar waith na'r amserlen ar gyfer diwygio. Yn ogystal, mae rhai o'n hargymhellion yn *Gofal mwy diogel i bawb* yn galw am gamau gweithredu gan sefydliadau eraill, a bydd yn rhaid i ni weithio gydag eraill i gyflawni'r canlyniadau gofynnol. Bydd yn rhaid i ni hefyd flaenoriaethu gwaith er mwyn cyflawni ein hamcanion yn effeithiol o fewn ein hadnoddau. Yr hyn y gallwn ei addo yw y bydd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a diogelu'r cyhoedd yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Byddwn yn codi llais, byddwn yn gwranddo, byddwn yn dysgu – ac ni fyddwn yn oedi cyn gweithredu pan fydd gwneud hynny er budd y cyhoedd. Wrth i ni edrych ymlaen tuag at 2023-26, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn parhau i fod mor ymroddedig ag erioed i wella rheoleiddio a chofrestru er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Caroline Corby (Cadeirydd)

Alan Clamp (Prif Weithredwr)

Ein cyd-destun gweithredol

- 1.1 Mae annibyniaeth ac arbenigedd yr Awdurdod, ynghyd â'n trosolwg o reoleiddio a chofrestru proffesiynol, yn ein rhoi mewn sefyllfa unigryw i ymateb i heriau rheoleiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- yr heriau sylweddol parhaus a wynebir gan unigolion cofrestredig, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y DU;
 - gweithio gyda llywodraethau'r Deyrnas Unedig i gefnogi diwygiad deddfwriaethol effeithiol o reoleiddio proffesiynol;
 - gweithio gyda rheolyddion i roi diwygiadau ar waith, gan sicrhau bod y newidiadau'n diogelu'r cyhoedd yn effeithiol;
 - sicrhau bod rheoleiddio a chofrestru yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn darparu amddiffyniad priodol i bawb;
 - dysgu o ymateb y sector i'r pandemig COVID-19 i wella rheoleiddio yn y dyfodol;
 - gwella cydweithio rhwng rheolyddion i amddiffyn y cyhoedd yn well;
 - gweithio gyda rheolyddion, cofrestrau achrededig a rhanddeiliaid i wella rheoleiddio a chofrestru, gan gynnwys trwy gynnal ymchwil a rhannu arfer da;
 - mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn ein hadroddiad *Gofal mwy diogel i bawb*:
 - effaith anghydraddoldebau mewn rheoleiddio ac iechyd a gofal ar gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol, ac ar hyder y cyhoedd yn ehangach;
 - yr heriau sy'n wynebu rheolyddion wrth addasu i ffactorau aflonyddgar newydd o ran sut mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn darparu gofal, megis gwrthdaro buddiannau ariannol, modelau busnes newydd a newidiadau technolegol;
 - argyfwng cyfredol y gweithlu a sut y gall fod angen i reoleiddio proffesiynol esblygu i gefnogi anghenion y gweithlu'n well ledled y Deyrnas Unedig;
 - a sut i wneud i ddiwylliannau dysgu ac atebolrwydd unigol weithio ar gyfer diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

Beth rydym yn ei wneud

- 1.2 Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol bedair swyddogaeth allweddol.
1. Rydym yn ysgogi gwelliannau yn y 10 rheolydd statudol mewn iechyd a gofal cymdeithasol trwy gynnal adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd.
 2. Rydym yn darparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer unrhyw benderfyniadau addasrwydd i ymarfer sy'n annigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

3. Rydym yn codi safonau mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn rolau anstatudol trwy ein rhaglen cofrestrau achrededig.
4. Rydym yn defnyddio ymchwil a datblygu polisi i wella rheoleiddio a chofrestru er mwyn amddiffyn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn well.

Gweledigaeth

- 1.3 Gofal mwy diogel i bawb trwy safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Taith

- 1.4 I ddiogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella rheoleiddio a chofrestriad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Nod strategol 1

- 1.5 **Diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru.**
 - Cyflawni ein dyletswyddau statudol, targedu ein hadnoddau ble mae'r risg mwyaf i'r cyhoedd.
 - Cefnogi safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru iechyd a gofal cymdeithasol trwy ein hadolygiad perfformiad, adolygiadau adran 29, cofrestrau achrededig, swyddogaethau polisi a chyfathrebu.
 - Adolygu a gwella ein prosesau (gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol ble fo angen) i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn effeithlon.
- 1.6 **Erbyn 2026:** byddwn yn datblygu ein swyddogaethau goruchwylio cymesur sy'n seiliedig ar risg i ysgogi gwelliannau clir yng ngwaith rheolyddion a chofrestrau i ddiogelu'r cyhoedd.
- 1.7 Byddwn yn gwybod pa welliannau a wnaed os: mae nifer cyfartalog y Safonau Rheoleiddio Da a fodlonir gan y rheolyddion wedi cynyddu; mae nifer cyfartalog yr amodau ar gyfer Cofrestrau Achrededig sefydledig wedi gostwng; mae llai o apeliadau adran 29 ac mae ein cyfradd llwyddiant ar gyfer yr apeliadau hyn yn parhau i fod yn fwy na 80%.
- 1.8 Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, yn 2023/24 byddwn yn:
 - Darparu adolygiadau perfformiad cadarn a theg o'r rheolyddion statudol; defnyddio ein pwerau adran 29 i adolygu canlyniadau paneli addasrwydd i ymarfer; rheoli'r rhaglen Cofrestrau Achrededig; ac adrodd ein casgliadau i'r Senedd.
 - Gwerthuso'r newidiadau i'n hadolygiadau perfformiad a'n prosesau achredu a gyflwynwyd yn 2021/22 i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach.
 - Chwilio am ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o Gofrestrau Achrededig gan gyflogwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

- Adolygu effaith diwygio rheoleiddio ar ein prosesau, ynghyd â diwygiadau deddfwriaethol ar gyfer yr Awdurdod, er mwyn gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio i ddiogelu'r cyhoedd.
 - Darparu adborth ar ddeddfwriaeth diwygio a chynlluniau ar gyfer gweithredu diwygiadau i sicrhau bod newidiadau yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd.
- 1.9 Yn 2024/25, byddwn yn:
- Datblygu unrhyw newidiadau gofynnol i'n prosesau adolygu perfformiad ac achredu a nodwyd yng ngwerthusiad 2023/24.
 - Adolygu ein Safonau Rheoleiddio Da a'n Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig, ymgynghori â rheolyddion, cofrestrau achrededig a rhanddeiliaid ehangach i nodi lle mae angen newidiadau.
 - Gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i swyddogaethau a phrosesau'r Awdurdod sy'n deillio o ddiwygio rheoleiddio.
- 1.10 Yn 2025/26, byddwn yn:
- Gweithredu unrhyw newidiadau yn ein Safonau Rheoleiddio Da a Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig.
 - Parhau i gefnogi gweithredu diwygiadau rheoleiddio a gwerthuso effaith y newidiadau a wnaed yn 2024/25.

Nod strategol 2

- 1.11 **Gwneud rheoleiddio a chofrestru yn well ac yn decach**
- Arwain datblygiad rheoleiddio mwy effeithiol trwy adolygu ein safonau, a chyflawni gweithgareddau eraill yn cynnwys ymchwil, cyngor polisi a mentrau gwella ansawdd, megis rhannu arfer da.
 - Hyrwyddo, dylanwadu a chefnogi diwygio rheoleiddio.
 - Hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith ac yn y rhai rydym yn eu goruchwyllo.
- 1.12 **Erbyn 2026:** rydym yn gobeithio y bydd y diwygiadau deddfwriaethol wedi'u cwblhau neu'n amlwg ar waith ar gyfer yr holl reolyddion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a bydd yr Awdurdod yn chwarae rhan weithredol wrth roi'r diwygiad hwnnw ar waith yn effeithiol. Yn ogystal, bydd dangosyddion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn dangos cynnydd sylweddol o gymharu â 2022/23.
- 1.13 Byddwn yn gwybod bod gwelliannau wedi digwydd os: ceir cynnydd yn nifer yr ymarferwyr Cofrestrau Achrededig sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; ymdrinnir yn gynhwysfawr â gwiriadau diogelu priodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; ac mae dangosyddion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi gwella'n sylweddol.
- 1.14 Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, yn 2023/24 byddwn yn:

- Cyflawni ein hymrwymiaidau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn yr adroddiad *Gofal mwy diogel i bawb*, gan gynnwys adolygu ein prosesau ein hunain a chyflwyno dulliau newydd o asesu EDI ar gyfer y rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.
 - Ystyried sut mae gwiriadau diogelu yn cael eu defnyddio ar draws rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i sicrhau amddiffyniad priodol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
 - Adolygu sut rydym yn adrodd ar ein canfyddiadau am berfformiad rheolyddion a Chofrestrau Achrededig fel ei bod yn glir beth sy'n cael ei wneud yn dda a hefyd yn darparu her lle mae angen gwelliannau.
 - Cyflawni ymchwil, cynnal cynhadledd ymchwil, darparu cyngor polisi a rhannu arfer da i wella rheoleiddio a chofrestru.
 - Hyrwyddo diwygio rheoleiddio parhaus sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi gweithrediad y diwygio hwnnw.
- 1.15 Yn 2024/25, byddwn yn:
- Gwerthuso effaith y newidiadau i'n safonau EDI ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.
 - Parhau i gynnal ymchwil, darparu cyngor polisi a rhannu arfer da i wella rheoleiddio a chofrestru.
 - Cefnogi gweithrediad diwygio rheoleiddiol.
- 1.16 Yn 2025/26, byddwn yn:
- Cynnal ymchwil pellach i faterion EDI mewn rheoleiddio a chofrestru a nodi camau gweithredu ar gyfer gwelliant pellach.
 - Adolygu effaith gychwynol diwygio rheoleiddio a gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau pellach sydd eu hangen i ddiogelu'r cyhoedd yn well.

Nod strategol 3


- 1.17 **Hyrwyddo a chefnogi gofal mwy diogel i bawb**
- Gweithio gydag eraill i sefydlu ystod lawn o swyddogaethau a argymhellir yn *Gofal mwy diogel i bawb* ar gyfer Comisiynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mhob un o bedair gwlad y DU.
 - Gweithio gyda llywodraethau'r DU i ddatblygu strategaethau rheoleiddio i gefnogi strategaethau'r gweithlu.
 - Gweithio gyda rheolyddion, Cofrestrau Achrededig a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo diwylliannau positif yn y gweithle; datrys unrhyw wrthdaro rhwng blaenoriaethau busnes a diogelwch cleifion; a rhwng manau diogel, atebolrwydd a'r ddyletswydd gonestrwydd.
- 1.18 **Erbyn 2026:** bydd gan bedair gwlad y DU: strategaethau rheoleiddio sy'n cefnogi strategaethau gweithlu; a swyddogaethau goruchwyllo diogelwch sy'n monitro ac yn mynd i'r afael â risgiau, yn cydgysylltu ymholiadau ac yn monitro'r broses o weithredu argymhellion ymchwiliad.

- 1.19 Byddwn yn gwybod bod gwelliannau wedi digwydd os: mae holl strategaethau gweithlu'r DU eu hategu gan strategaethau rheoleiddio; mae ystod o swyddogaethau Comisiynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Diogelwch yn cael eu cyflawni'n effeithiol ledled y DU; ac mae polisïau clir a phriodol ar waith i sicrhau bod manau diogel, atebolrwydd a gonestrwydd yn gweithio gyda'i gilydd er budd y cyhoedd.
- 1.20 Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, yn 2023/24 byddwn yn:
- Adolygu cylch gwaith Comisiynydd Diogelwch Cleifion Lloegr a chyflwyno rôl debyg yn yr Alban, a gwneud argymhellion mewn perthynas â chwmpas a chyflawniad y rolau hyn.
 - Archwilio'r achos dros Gomisiynwyr Diogelwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol (neu swyddogaethau cyfatebol) ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon.
 - Ymgysylltu â llywodraethau'r DU i adolygu sut y gellir datblygu strategaethau rheoleiddio a fydd yn helpu cefnogi strategaethau gweithlu cenedlaethol.
 - Gweithio gyda rheolyddion a chofrestrau i fynd i'r afael ag arferion busnes a allai beryglu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
 - Cynnull trafodaethau polisi i adolygu sut y gall manau diogel, atebolrwydd unigol a'r ddyletswydd gonestrwydd weithio gyda'i gilydd er budd diwylliannau gweithle positif a diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- 1.21 Yn 2024/25, byddwn yn:
- Cefnogi unrhyw ddatblygiad angenrheidiol yn rolau Comisiynydd Diogelwch Cleifion yn Lloegr a'r Alban; ac, os oes angen, gweithredu swyddogaethau tebyg yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.
 - Gweithio gyda llywodraethau a rhanddeiliaid eraill i gyhoeddi strategaethau rheoleiddio sy'n cefnogi strategaethau gweithlu.
 - Gweithio gydag eraill i roi dulliau y cytunwyd arnynt ar waith o ran defnyddio manau diogel mewn lleoliadau gofal iechyd.
- 1.22 Yn 2025/26, byddwn yn:
- Cefnogi gweithrediad strategaethau rheoleiddio i fynd i'r afael â materion gweithlu.
 - Gwerthuso effaith swyddogaethau'r Comisiynydd Diogelwch Cleifion a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach.

Sut mae'r nodau strategol hyn yn gweithio gyda'i gilydd

Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r tri nod strategol yn cydberthyn. Mae gwaith craidd yr Awdurdod yn gwella diogelwch y cyhoedd a hefyd yn ysgogi gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn gwneud cyfraniad allweddol at ofal mwy diogel i bawb. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn themâu allweddol sy'n sail i bob un o'r tri nod strategol. Mae gan ddiwygio

rheoliadol y potensial i gefnogi gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru; a gallai alluogi rheoleiddio proffesiynol i wneud mwy o gyfraniad at ofal mwy diogel i bawb.



Sut y byddwn yn gweithio i gyflawni ein cynllun strategol

Sut y byddwn yn gwella sut rydym yn gweithio yn 2023-26

Er mwyn cyflawni'r nodau a sefydlir yn y cynllun hwn bydd angen i ni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian. Ein nod yw gwneud hynny mewn tair ffordd: adolygu gwariant yn ofalus a rheoli costau; gwerthuso prosesau craidd yn systematig i nodi gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd; a gwneud y mwyaf o fanteision ein gwaith er budd gwell rheoleiddio a chofrestru. Er enghraifft, rydym wedi cymryd camau i leihau ein gwariant ar swyddfeydd, gwasanaethau TG a phensiynau; ac rydym wedi adolygu a gwella prosesau ar gyfer ein swyddogaeth Cofrestrau Achrededig ac adolygiadau perfformiad. Byddwn yn adolygu ein swyddogaethau adran 29 i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithlon ac effeithiol.

Fel rhan o'r cynllun hwn bydd gennym y timau sy'n gyfrifol am asesu'r rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn yr un gyfarwyddiaeth, i hwyluso gwell rhannu gwybodaeth a dull mwy cydgysylltiedig o ddatblygu ein safonau. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd o gael mwy o fewnbwn gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i'n gwaith goruchwyllo; a sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'r cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol ar draws y DU.

Byddwn yn gwella ymhellach ein diwylliant o ddysgu mewnol a thryloywder, fel y gallwn wella'n barhaus, a disgwyl i'r rhai yr ydym yn eu goruchwyllo wneud yr un peth. Byddwn yn dal ein hunain i'r un safonau ag y disgwylwn gan eraill. Bydd hyn yn golygu gweithio i wella amrywiaeth trwy ddatblygu a recriwtio, yn enwedig ar

lefelau uwch ac ar ein Bwrdd, a thrwy bolisiâu cynhwysol a hyfforddiant yn ymwneud â chydarddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd gennym ffocws cryf ar gefnogi ein staff a sicrhau lles pawb sy'n gweithio yn yr Awdurdod.

Gan y bydd cyflawni newid yn y system ehangach yn golygu mwy o gydweithio, byddwn yn datblygu tîm cyfathrebu ac ymgysylltu newydd, a fydd yn cefnogi gweddill y sefydliad i ymgysylltu ag ystod ehangach a mwy amrywiol o randdeiliaid yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd o egluro ein rôl yn well i'r cyhoedd a sicrhau bod y wybodaeth hon yn hygyrch, gan gynnwys ail-ddylunio ein gwefan. Bydd hyn yn helpu gwella ymwybyddiaeth o sut mae gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn cael eu rheoleiddio, a pha safonau gofal i'w disgwyl. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyda rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i gefnogi gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru.

Ein gwerthoedd

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod popeth a wnawn yn cael ei ategu gan ein gwerthoedd. Mae ein gwerthoedd yn disgrifio sut fyddwn ni'n gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol. Rydym yn ymgeisio i hyrwyddo, datblygu ac arddangos y gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn. Mae diwylliant positif yn arwain at well perfformiad a gwell deilliannau i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Ein gwerthoedd yw:

- Cywirdeb – byddwn yn agored, onest ac yn ymddiried yn ein gilydd.
- Tryloyw – byddwn yn glir ynghylch ein perfformiad a'r rhesymau dros ein penderfyniadau gyda phob rhanddeiliad.
- Parch – byddwn yn trin ein gilydd, a'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw tu allan i'r sefydliad, gyda pharch ar bob adeg.
- Tegwch – byddwn yn ymdrechu i fod yn deg ym mhob agwedd o wneud penderfyniadau.
- Gwaith tîm – byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwell deilliannau i gleifion a'r cyhoedd.



ISBN 978-1-5286-4093-0

E02886325 04/23

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar
gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

16-18 New Bridge Street,
Llundain EC4V 6AG

Ffôn: **020 7389 8030**

E-bost: info@professionalstandards.org.uk

Gwefan: www.professionalstandards.org.uk

